Yn olaf, wrth gymeradwyo'r adroddiad yma i chi, hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch i bob un a gymerodd ran yn lleol wrth gydweithio â throseddwr rhyw a throseddwr treisgar, neu a sicrhodd bod y trefniadau hyn yn ateb y galw. Lle mae MAPPA'n gweithio'n dda mae wedi ei seilio ar gynnal safonau proffesiynol uchel a chydweithio effeithiol aml-asiantaeth wrth gyflwyno cynlluniau rheoli risg grymus. Er nad yw'n bosibl dileu risg yn gyfan gwbl, lle mae pob cam rhesymol yn cael ei weithredu gellir gostwng perygl o niwed difrifol pellach i'r lefel isaf posibl gyda nifer llai o ddiodefwr yn agored i ail-droseddu.

Gerry Sutcliffe AS

Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cyfiawnder Troseddol a Rheoli Troseddwr

2. CYFLWYNIAD Y PRIF SWYDDOG

gan
Prif Gwnstabl Heddlu Gwent,
Prif Swyddog y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol - Ardal Gwent
a
Llywodraethydd, Carchar Ei Mawrhydi, Brynbuga

Mae adeiladu cymunedau diogelach yn brif flaenoriaeth i awdurdodau cyfrifol sy'n cyflawni Trefniadau Aml-Asiantaeth Diogelu'r Cyhoedd Gwent. Mae ein gwaith yn cyfannu gwaith Partneriaethau Diogelwch Cymunedau a Byrddau Lleol Diogelu Plant ac yn cyfrannu tuag at gyd-lwyddiant pob un o'r rhai hynny sy'n ymroddedig i lleihau trosedd yn ein cymunedau.

Mae'r trefniadau i ddiogelu'r cyhoedd yng Ngwent wedi datblygu yn y 12 mis diwethaf fel canlyniad i nifer o gynlluniau newydd a gynhyrchwyd gan gynllun gwaith y Bwrdd Rheoli Strategol ar gyfer y flwyddyn. Mae'r datblygiadau hynny wedi cynnwys cyflwyno prosesau monitro newydd a grymusach a chyfnewid gwybodaeth rhwng pob partner-asiantaeth sy'n ymgyfrannu yn niogelwch y cyhoedd.

Bydd dysgu o achos troseddu difrifol pellach gan Craig Sweeney yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod trefniadau'n cael eu cryfhau ymhellach i leihau'r perygl o weld y fath ddigwyddiadau trychinebus yn digwydd eto. Rydym yn cydymdeimlo â'r plentyn a'r teulu a gafodd eu heffeithio gan droseddau Sweeney ac rydym yn fwy penderfynol nag erioed i wneud y defnydd gorau posibl o adnoddau ar gyfer rheoli troseddwy'r treisgar a rhywiol.

Mae'r staff ymroddedig iawn o asiantaethau sy'n cymryd rhan mewn diogelu'r cyhoedd yn parhau fel ein hased fwyaf gwerthfawr ac mae'r adroddiad hwn yn dangos yr amrediad o waith sydd wedi ei wneud y flwyddyn yma i gynyddu diogelwch y cyhoedd. Yn yr adroddiad yma rydym wedi cynnwys rhai astudiaethau achos sy'n dangos effeithiolrwydd ein hymyriadau wrth ddarparu mwy o ddiogelwch i gymunedau lleol ac mae'r Bwrdd Rheoli Strategol yn edrych ymlaen at adeiladu ar y cynnydd ymhellach yn ein gwaith yn y dyfodol ar ran pobl Gwent.

3. PRIF LWYDDIANNAU

a) Strategaeth 3 Blynedd

Fel canlyniad i'r gofyniad a roddwyd ar y Bwrdd Rheoli Strategol i gynhyrchu Cynllun Busnes Blynyddol, mae'r Bwrdd wedi datblygu Gweledigaeth Strategol 3 blynedd gynhwysfawr. Datblygiad cydweithredol oedd hwn yn cynnwys ymgyfraniad yr Awdurdod Cyfrifol ac asiantaethau Dyletswydd i Gydweithredu. Bob blwyddyn mae'r strategaeth yn adnabod amcanion arweiniol i gyfannu'r Cynllun Busnes, sef:

- Sicrhau bod y pethau sylfaenol yn gywir
- Ehangu a mesur effeithiolrwydd y Bwrdd
- Adeiladu hyder cyhoeddus trwy ennyn diddordeb y gymuned

b) Cynllun Busnes Blynyddol

Cytunwyd ar y Cynllun Busnes Blynyddol ar gyfer 2006-07 mewn egwyddor yng nghyfarfod Ionawr 2006 o'r Bwrdd Rheoli Strategol. Fel y nodwyd uchod, mae'n cydblethu â Gweledigaeth Strategol 3 Blynedd a bydd yn llunio gwaith yr SMB dros y flwyddyn nesaf. Dyfeisiwyd y Cynllun gan aelodau'r Awdurdod Cyfrifol, Asiantaethau Dyletswydd i Gydweithredu, Cymorth i Ddioddefwyr a Chynghorydd Lleyg.

c) Ymgyfraniad yn Natblygiadau MAPPA Cymru-gyfan

Yn y flwyddyn ddiwethaf, cynhaliwyd dau gyfarfod Cymru-gyfan ar gyfer uwch aelodau'r Awdurdod Cyfrifol, a chynrychiolwyd Gwent yn dda yn y ddau. Yn y diweddaraf, dynodwyd pedair ffrwd waith, ac mae pob Bwrdd Rheoli Strategol Cymraeg wedi ysgwyddo cyfrifoldeb am un ohonynt. Mae Gwent yn arwain Archwiliad o'r Bwrdd Rheoli Strategol a swyddogaethau MAPPA yn cynnwys Adolygiadau Achosion Difrifol.

ch) Is-grŵp Llety

Er bod yr angen am ddatblygiad strategaeth llety MAPPA ar gyfer Gwent eisoes wedi ei adnabod, tanlinellodd Trosedd Ddifrifol Bellach yr angen i roi prif flaenoriaeth i'r mater yma. Mae'r rheolydd a'r prif gyfrifoldeb am Dai ar y Bwrdd Rheoli Strategol yn cydgysylltu'r darn anhepgor hyn o waith gyda chyfraniad oddi wrth nifer o asiantaethau. Rhagwelir y bydd y strategaeth yn ystod 2006-07 yn cael ei chysylltu â datblygiadau tebyg ar draws Cymru i drwytho strategaeth llety Cymru-gyfan MAPPA.

d) Cadeirydd Bwrdd Rheoli Strategol

Mae'r Bwrdd Rheoli Strategol wedi cael ei gadeirio yn ystod 2005-06 gan y Prif Gwnstabl Cynorthwyol gyda'r Prif Swyddog Prawf Arweiniol yn gweithredu fel ei ddirprwy. Mae'r ddau wedi ymgyfrannu'n helaeth yn MAPPA ar lefel leol a rhanbarthol.

dd) Memorandwm Dyletswydd i Gydweithredu

Yn ystod y flwyddyn diwallwyd y gofyniad i greu memorandwm rhwng asiantaethau Awdurdod Cyfrifol a Dyletswydd i Gydweithredu ac mae pob un o'r asiantaethau perthnasol wedi llofnodi'r memorandwm.

e) Rheoli Troseddwyr Rhyw yn y Gymuned – Archwiliad ar y Cyd

Cyhoeddwyd y cyd-archwiliad yma gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ac Arolygiaeth Cwnstablau Ei Mawrhydi ym mis Tachwedd 2005. Roedd Gwent yn un o bum ardal yng Nghymru a Lloegr i gael ei harchwilio. Roedd yr adroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion. Roedd nifer ohonynt yn amherthnasol i ardal Gwent ond roedd rhai yn berthnasol.

Mae arweinwyr Prawf a Heddlu arweiniol MAPPA wedi cynnal dadansoddiad trylwyr o'r Adroddiad Archwilio, ac ar y cyd rhoddasant adroddiad i'r Bwrdd Rheoli Strategol ym mis Ebrill. Mae pob un o'r Ardaloedd a ddynodwyd gan yr Arolygiaethau fel rhai oedd angen Gwelliant naill ai wedi cael sylw llwyddiannus (e.e. ansawdd asesiadau OASys) neu wedi eu hymgorffori yng Nghynllun Busnes SMB ar gyfer 2006-07) (e.e. penodiad cydlynedd MAPPA, a'r angen am weithdrefnau diwygiedig).

f) Sicrwydd Ansawdd OASys

Dull o asesu risg yw OASys a ddefnyddir gan y Gwasanaethau Prawf a Charchar. Acronym ydyw am 'Offender Assessment System' a, thrwy asesu amrywiaeth eang o ffactorau risg deinamig a statig, mae'n galluogi ymarferwyr i ragweld oes yna berygl i droseddwr greu niwed ac a yw'n debygol o ail-droseddu.

Fel y dangoswyd uchod, dynododd y cyd-archwiliad ddiffygion yn amseriad ac ansawdd asesiadau OASys. Roedd y mater hwn wedi ei adnabod cyn hyn gan y Gwasanaeth Prawf yn lleol trwy archwiliad arall allanol yn ogystal â mewnol. Lanswyd ymgyrch sylweddol ar sicrwydd ansawdd ym mis Mehefin 2005, ac arweiniodd hyn at ymarfer yn Ionawr 2006, pan gynhaliwyd asesiad systematig o asesiadau OASys ar holl droseddwyr â'r potensial i fod yn beryglus yn y gymuned oedd o dan arolygiaeth y Gwasanaeth Prawf. Roedd y canlyniadau yn galonogol iawn. Roedd asesiad llawn wedi ei gwblhau ym mhob achos ac roedd yr ansawdd wedi gwella mewn dull dramatig. Mae'r asesiad yma wedi cael croeso gan Arolygiaeth Carchardai ei Mawrhydi a'r Cyfarwyddiaeth Prawf Cenedlaethol.

ff) Cydlynnydd MAPPA

Mae'r angen am gydlynnydd MAPPA neilltuol ar gyfer Gwent wedi dod yn fwyfwy amlwg yn y ddwy flynedd ddiwethaf, ac wedi ei dderbyn mewn egwyddor gan yr Awdurdod Cyfrifol. Mae'r Bwrdd Rheoli Strategol wedi cytuno ar Ddisgrifiad Swydd a Manyleb Person, a thra nad oes penderfyniad terfynol wedi ei wneud eto ynglŷn ag ariannu'r swydd, rhagwelir y bydd penodiad i'r swydd yn digwydd yn ystod 2006.

g) Presenoldeb Awdurdod Cyfrifol yn MAPPA

Mae'r heddlu bron yn ddiethriad yn cael eu cynrychioli gan Brif Dditectif Arolygydd a'r Gwasanaeth Prawf gan Brif Swyddog Cynorthwyol. Yr Heddlu sy'n cadeirio cyfarfodydd a elwir gan y Gwasanaeth Prawf, a'r Gwasanaeth Prawf sy'n cadeirio cyfarfodydd a elwir gan yr Heddlu.

ng) Gwaith Cyswllt gyda'r Dioddefwyr

Mae'n ofynnol i'r Gwasanaeth Prawf gysylltu â dioddefwyr pob trosedd rywiol ddifrifol a throedd dreisgar pan gaiff y troseddwr ei ddedfrydu i 12 mis neu fwy mewn carchar. Pwrpas hyn yw rhoi gwybod i'r dioddefwr am statws y ddedfryd, a chael barn dioddefwyr ar amodau trwyddedu posibl pan ddaw'n amser i'r carcharor gael ei ryddhau.

Yn ystod 2005-06 mae'r fath waith cyswllt gyda dioddefwyr wedi cael ei integreiddio i mewn i'r broses MAPPA. Mae Swyddogion Prawf Cyswllt Dioddefwyr yn mynychu cyfarfodydd MAPP yn rheolaidd ac yn sicrhau bod barn dioddefwyr nid yn unig yn cael gwrandawriad, ond yn cael ei adlewyrchu'n briodol yn amodau trwyddedu megis atal cysylltiad ag ardal ddaearyddol neu waharddiad.

h) Cynhwysedd Ditectif Arolygydd Neilltuedig ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd

Mae gan bob un o'r tair Adran Heddlu weithredol yn awr Dditectif Arolygydd sy'n gweithio'n benodol ar ddiogelu'r cyhoedd. Mae eu dyletswyddau'n cynnwys MAPPA, Camdriniaeth yn y Cartref ac Amddiffyn Plant. Mae eu harbenigedd, ynghyd ag arbenigedd grŵp bychan o reolwyr canol Prawf, yn sicrhau safonau uchel o arfer proffesiynol mewn cyfarfodydd MAPPP lefel 2.

l) Adleoli Tîm Prawf Risg Uchel o Niwed

Mae cyflwyniad Model Rheoli Troseddwr newydd ar gyfer y Gwasanaeth Prawf wedi arwain at gyfle i leoli holl staff arbenigol sy'n gweithio gyda'r troseddwr risg uchaf i weithio o'r un lleoliad. Mae hyn wedi bod yn fuddiol i'r Heddlu a'r Gwasanaeth Prawf, ac mae'n arwain at wella safonau arfer proffesiynol trwy gydweithio a thrwy well cydlyniaeth adnoddau.

4. SUT MAE MAPPA'N GWEITHREDU YNG NGWENT

Sefydlwyd Panel Aml-Asiantaeth Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA) Gwent yn 2001. Mae staff neilltuol o fewn y gwasanaeth prawf a'r heddlu wedi cyflwyno cynlluniau diogelwch i gymunedau trwy gydol y cyfnod yma. Mae swyddogion heddlu neilltuol a'r Tîm Risg Uchel o Niwed Gwasanaeth Prawf Gwent yn cydweithio ar amrediad o achosion. Mae'r corff o arbenigedd sydd wedi datblygu yn y ddwy asiantaeth wedi ei wella drwy amrywiaeth o hyfforddiant arbenigol.

Rheolir cyfarfodydd MAPPA gan gnewyllyn o staff o'r heddlu a'r gwasanaeth prawf. Mae canolbwyntio gwaith grŵp o reolwyr o'r ddwy asiantaeth yn sicrhau cysondeb wrth gymhwyso trothwyon ar gyfer pob lefel o broses MAPPA. Mae'r berthynas waith yn effeithiol, gydag amrediad o asiantaethau â dyletswydd i gydweithredu gyda MAPPA, ac mae adrannau tai Awdurdodau Lleol ac amrywiaeth o landlordiaid cymdeithasol a chymdeithasau tai yn rhan anhepgor o'r broses.

Mae'r trefniadau'n delio ag ystod eang o gynllunio diogelwch i droseddwr pan gânt eu rhyddhau o garchar a hefyd pan fydd troseddwr MAPPA'n cael eu trosglwyddo i'r ardal. Mae dadansoddiad diweddar wedi dynodi bod lleiafrif o droseddwr MAPPA'n cynrychioli achosion trosglwyddo. Mae **Gordon** yn un enghraifft o'r modd y mae MAPPA wedi delio'n effeithiol ag achos yn ymwneud â rhyddhau troseddwr o garchar a'i drosglwyddo i ardal Gwent.

Roedd yr amser wedi dod iddo gael ei ryddhau o garchar tu allan i Gymru ar ôl cyfnod hir yn y carchar am droseddau rhywiol ynghyd â chyfnod ychwanegol am gyflawni trosedd ddifrifol tra yn y carchar. Mynegodd Gordon ddymuniad i ail-setlo yn yr ardal yma i fod gyda phobl a fedrai ei gynorthwyo.

Dygwyd hyn i mewn i broses MAPPA ar lefel 3 gan y Gwasanaeth Prawf yn yr ardal lle lleoli'r carchar a, thrwy ymgynghori a chydweithredu gydag asiantaethau MAPPA yn yr ardal yma, daethpwyd o hyd i lety addas i Gordon yn lleol, ac mae goruchwyliaeth wedi ei drosglwyddo'n llwyddiannus. Roedd y trosglwyddiad i'r ardal yn golygu ymagwedd cam wrth gam tuag at integreiddiad Gordon i mewn i'r gymuned.

Mae'r Gwasanaeth Carchardai hefyd yn awdurdod cyfrifol mewn cyfraith ac mae'n cyfrannu i'r broses gydag amrediad o wybodaeth am ymddygiad troseddwr tra yn y ddalfa. Mae cysylltiad agos rhwng y gwasanaeth prawf, yr heddlu a charchardai'n lleol. Mae swyddogion yr heddlu a swyddogion prawf yn cydweithio â charchardai lleol i gyflawni'r broses MAPPA a hefyd gyfrannu cynllunio diogelwch o fewn y sefydliadau. Mae MAPPA'n darparu cysylltiadau gweithredol rhwng gofal iechyd o fewn carchardai a'r gwasanaethau hynny sy'n bodoli yn y gymuned. Mae perthynas waith effeithiol ar gael rhwng timau iechyd meddwl cymunedol a charchardai. Defnyddiwyd y cysylltiadau hyn

mewn dull effeithiol wrth gynllunio ar gyfer rhyddhau troseddwr rhyw a euogfarnwyd, oedd wedi ymddwyn yn dreisgar yn ystod ei gyfnod yn y carchar, yn ôl i'r gymuned.

Treuliodd **Darren** dymor mewn carchar am droseddau rhywiol. Yn ystod y cyfnod yn arwain i fyny at ei ryddhau aeth swyddog prawf o'i gymuned leol i ymweld ag ef yn y carchar gan gwblhau'r telerau ar gyfer ei drwydded parôl. Sefydlwyd patrwm o ymddygiad treisgar trwy gysylltiad agos â staff y carchar tra roedd yn y ddalfa a arweiniodd yn y pen draw at driniaeth ar gyfer materion iechyd meddwl.

Bu cynllunio gofalus a manwl cyn i Darren gael ei ryddhau yn cynnwys ymgyfraniad swyddogion carchar, staff ysbyty'r carchar a thimau iechyd meddwl lleol. Cyfunwyd cynlluniau cefnogi Darren â'i gynllun rheoli risg. Casglwyd ef o'r carchar gan weithiwr iechyd meddwl a chafodd gymorth wrth fynd i fyw mewn tŷ a ddarparwyd gan ei awdurdod lleol.

Bygythiad Darren i'w deulu ei hunan oedd y brif risg a ddynodwyd yn y cynllun. Trwy orfodi amodau cafodd ei wahardd rhag ymweld â'r dre lle roedd ei deulu'n byw. Rhannwyd y manylion am y cyfyngiadau â'r heddlu a briffiwyd swyddogion lleol drwy brosesau briffio'r Model Cudd-Wybodaeth Cenedlaethol. Oherwydd y broses rhannu gwybodaeth dynodwyd Darren mewn ardal waharddedig a chafodd ei arestio.

Galluogodd yr arestiad prydlon y gwasanaeth prawf i gychwyn y proses ail-alw ac aeth Darren yn ôl i'r carchar heb gyflawni unrhyw drosedd bellach.

Mae'r Model Cudd-Wybodaeth Cenedlaethol (NIM) yn hybu gwaith Heddlu Gwent. Rhoddwyd arweiniad i'r holl heddluoedd, a sicrheir cydymffurfiad gan archwiliad allanol. Mae'n rhoi sail ar gyfer blaenoriaethu tasgau a materion o bwys ar lefel leol a lefel yr heddlu, gan alluogi dyrannu adnoddau a'u cyfeirio i wrthsefyll sialensiau newydd i blismona. Yn ganolog i NIM mae'r broses oruchwylio a chydlynu a drwythir gan waith dadansoddol ar amrediad o faterion plismona. Mae poblogaeth troseddwr rhyw cofrestredig wedi bod yn bwnc dadansoddiad a defnyddir canlyniadau'r dadansoddiad fel sail i flaenoriaethau. Mae NIM yn galluogi heddluoedd i weithio'n well ac un enghraifft o hyn yw'r modd y mae'r broses gorchwylion tactegol a chyd-drefniadol yn cael ei defnyddio i ddyrannu adnoddau ychwanegol i gynlluniau rheoli risg.

Mae Brian wedi ei euogfarnu am droseddau rhywiol yn cynnwys troseddau yn erbyn merch yn ei harddegau. Yn dilyn ei ryddhau o'r carchar dechreuodd Brian gysylltu â chyn-gariad â ganddi ferch yn ei harddegau. Roedd Brian hefyd heb fynychu apwyntiadau gyda'i swyddog goruchwylio. Felly cafodd ei ail-alw i'r carchar.

Ni fedrid dod o hyd i Brian a, thrwy ddefnyddio proses orchwyllo a chyd-drefnu'r Model Cudd-Wybodaeth Cenedlaethol, sicrhawyd bod adnoddau gwyliadwriaeth ar gael.

Arweiniodd gwyliadwriaeth olynol at arestiad Brian.

Mae aelodau Bwrdd Rheoli Strategol MAPPA'n cydweithio ar amrediad o faterion. Mae nifer o ddigwyddiadau Cymru-gyfan wedi digwydd sy'n arwain at ddatblygiad ymagweddau rhanbarthol tuag at faterion yn cynnwys archwiliad, gweithdrefnau, cyfathrebu, yn cynnwys hyfforddiant a chynllunio llety. Mae'r cysylltiadau strategol sy'n datblygu'n cael eu hadlewyrchu ar y lefel weithredol gyda chynlluniau rheolaeth achosion unigol yn darparu cysylltiadau rhwng ardaloedd MAPPA. Mae cronfa ddata genedlaethol VISOR (cofrestr troseddwr treisgar a rhywiol) yn darparu mynediad 24/7 i wybodaeth am droseddwr MAPPA i heddluoedd. Yn ychwanegol at y defnydd o gronfa ddata gyffredinol rhennir cynlluniau penodol ag ardaloedd lle gwyddys bod cysylltiad a lle mae angen wedi ei ddynodi i godi proffil cudd-wybodaeth am droseddwr penodol. Trwy rannu gwybodaeth rhwng heddluoedd galluogwyd rheolaeth risg effeithiol mewn achos lle credwyd bod troseddwr MAPPA'n fygythiad i fenywod unig.

Mae gan **Anthony** nifer o euogfarnau am ymosodiadau anwedus ar fenywod. Roedd y defnydd o fodur yn ei ymddygiad troseddol yn arwyddocaol.

Cafodd ei ryddhau ar drwydded o'r carchar a'i reoli ar MAPPA lefel 3. I gychwyn cafodd ei roi mewn hostel ac wedyn darganfu lety arall a gymeradwywyd trwy broses MAPPA.

Un o amodau trwydded Anthony oedd ei fod yn rhoi manylion i'r swyddog oedd yn ei oruchwyllo am unrhyw fodur yr oedd yn ei ddefnyddio. Fodd bynnag, fel canlyniad i gael ei stopio gan yr heddlu, darganfuwyd ei fod yn gyrru modur yn groes i amodau ei drwydded. Yn dilyn hyn cafodd ei ail-alw i dreulio gweddill ei ddedfryd yn y carchar.

Mae lleihau'r risg i'r gymuned yn brif flaenoriaeth i MAPPA. Mae'r adroddiad yma'n cynnwys gwybodaeth ystadegol am drosedd ddifrifol arall gan droseddwr MAPPA. Gobeithia'r Bwrdd y gall y rhai hynny sydd wedi eu heffeithio gan y troseddu gychwyn y broses o symud ymlaen ac mae dysgu fel canlyniad i'r achos yn fater o'r pwys pennaf iddynt. Comisiynwyd cyd-adolygiad o reolaeth yr achos yma gan Fwrdd Rheoli Strategol MAPPA gan ddefnyddio amrediad o adolygiadau asiantaethau unigol. Bydd canfyddiadau'r achos yn cael eu hymgorffori mewn gweithdrefnau a hyfforddiant. Mae arolygu a datblygu MAPPA'n agwedd allweddol o waith y Bwrdd Rheoli Strategol.

5. GWYBODAETH YSTADEGOL

1	Categori 1 Troseddwy'r MAPP: Troseddwy'r Rhyw Cofrestredig	
i	Nifer Troseddwy'r Rhyw Cofrestredig yn byw yn eich Ardal ar 31 Mawrth 2006	391
	Wedi eu dadansoddi gan Uned Reoli Sylfaenol:	
	Is-adran A [Casnewydd]	120
	Is-adran B [Sir Fynwy a Thorfaen]	109
	Is-adran C [Blaenau Gwent a Chaerffili]	162
	Nifer Troseddwy'r Rhyw Cofrestredig fesul 100,000 y pen o'r boblogaeth.	70
ii	Nifer troseddwy'r rhyw gydag amodau cofrestru gafodd un ai rybudd neu yn euog o dorri'r amodau rhwng 1 Ebrill 2005 a 31 Mawrth 2006	4 (2 wedi eu collfarnu 2 wedi derbyn rhybudd)
iii	Nifer (a) Gorchmynion Atal Troseddau Rhyw (SOPO) y gwnaed cais amdanynt (b) SOPO interim a ddyfarnwyd a (c) Gorchmynion Atal Troseddau Rhyw a orfodwyd gan y llysoedd yn eich Ardal rhwng 1 Ebrill 2005 a 31 Mawrth 2006	(a) 15 cais (b) 0 interim (a) 8 wedi eu gorfodi
iv	Nifer: (a) Gorchmynion Hysbysiad y gwnaed cais amdanynt (b) Gorchmynion Hysbysiad interim a ddyfarnwyd (c) Gorchmynion Hysbysiad llawn a osodwyd gan y llysoedd yn eich Ardal rhwng 1 Ebrill 2005 a 31 Mawrth 2006	(a), (b) & (c) Dim
v	Nifer Gorchmynion Teithio Tramor (a) y gwnaed cais amdanynt, ac (b) a osodwyd gan y llysoedd yn eich Ardal rhwng 1 Ebrill 2005 a 31 Mawrth 2006	(a), (b) & (c) Dim
3.	Troseddwy'r MAPP Categori 2: Troseddwy'r Treisgar a throseddwy'r Rhywiol eraill	
vi	Nifer troseddwy'r treisgar a rhywiol (fel y'u diffinnir gan Adran 327 (3), (4) a (5) o Deddf Cyfiawnder Troseddol (2003) yn byw yn eich Ardal rhwng 1 Ebrill 2005 a 31 Mawrth 2006	115
4.	Troseddwy'r MAPP Categori 3: Troseddwy'r Eraill	
vii	Nifer 'troseddwy'r eraill' fel y'u diffinnir gan Adran 325 (2)(b) Deddf Cyfiawnder Troseddol (2003) rhwng 1 Ebrill 2005 a 31 Mawrth 2006	18

5. Troseddwr a reolir drwy Lefel 3 (MAPPP) a Lefel 2 (Rheolaeth Rhyng-Asiantaeth Lleol)		Lefel 3	Lefel 2
(viii)	Faint o droseddwr MAPPA ym mhob un o'r tri chategori sydd wedi eu rheoli drwy MAPPP (lefel 3) a thrwy reolaeth risg rhyng-asiantaeth lleol (lefel 2) rhwng 1 Ebrill 2005 a 31 Mawrth 2006		
	Categori 1	48	7
	Categori 2	25	3
	Categori 3	17	1
(ix)	Nifer achosion a reolwyd ar lefel 2 neu 3 lle'r oedd y troseddwr:		
	Wedi ei ddychwelyd i'r ddalfa am dorri trwydded	9	
	Wedi ei ddychwelyd i'r ddalfa am dorri gorchymyn ffrwyno neu orchymyn atal troseddau rhywiol	0	
	Wedi ei gyhuddo o drosedd rywiol ddifrifol neu drosedd dreisgar	1	

6. BWRDD RHEOLI STRATEGOL

Mae cadeiryddiaeth Bwrdd Rheoli Strategol MAPPA Gwent yn awr yn nwylo'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol. Mae strategaeth tair blynedd yn ei lle ac mae wedi sefydlu'r prif flaenoriaethau ar gyfer gwaith yr Bwrdd Rheoli Strategol yn y tymor canol. Mae'r cynllun blynyddol cyntaf wedi ei ddatblygu ac mae'n cwmpasu gwaith mewn amrywiaeth o feysydd yn cynnwys adolygu gweithdrefnau lleol, sefydlu mecanweithiau archwilio ac adolygu, datblygu cynlluniau cyfathrebu a hyfforddi ac arwain y gwaith o ddatblygu strategaeth llety. Bydd Bwrdd Rheoli Strategol MAPPA Gwent yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb rhanbarthol arweiniol ar gyfer datblygu mecanweithiau archwilio ac adolygu.

Ar y cyd ag Arolygiaeth Prawf a Heddlu Ei Mawrhydi cyfranogodd yr ardal mewn arolygiad thematig o reolaeth troseddwr rhyw yn y gymuned. Adnabu'r adolygiad arfer da gan wasanaeth prawf Gwent mewn gwaith archwilio adroddiadau cyn-ddedfryd a arweiniodd at well adroddiadau ar yr holl droseddwr rhyw. Mae'r pwyntiau a ddysgwyd o'r adolygiad wedi eu hymgorffori i waith datblygu yng nghynllun blynyddol eleni.

Mae'r cysylltiadau rhwng MAPPA a Phwyllgorau Ardal Amddiffyn Plant wedi eu sefydlu drwy ymgyfraniad rheolwr heddlu o fewn y prosesau gweithredol a gwaith y Pwyllgorau Ardal. Mae ymarferwyr o asiantaethau eraill wedi derbyn mewnbwn ar broses MAPPA drwy ddigwyddiadau hyfforddi y Pwyllgorau Ardal. Gobeithir y bydd cynllun blynyddol MAPPA yn datblygu'r gwaith yma drwy'r holl ardal.

Eir â gwaith gyda dioddefwyr rhagddo drwy gysylltiadau rhwng aelodau Bwrdd Rheoli Strategol MAPPA a Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol ac mae protocol dioddefwyr, perthnasol i bob asiantaeth cyfiawnder troseddol, yn cael ei ddatblygu.

Mae rôl y cynghorydd lleyg wedi ei ehangu i gynnwys cyfleoedd i arsylwi cyfarfodydd byw MAPPA sy'n galluogi adborth i'r Bwrdd Rheoli Strategol a'r prif reolwr. Mae ymgyfraniad lleyg yn y trefniadau monitro hyn yn chwarae rhan werthfawr yn y trefniadau goruchwyllo.

7. CYSYLLTIADAU

Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol - Ardal Gwent	Address	Ffôn:
Adam Gotley Prif Swyddog Cynorthwyol	Tŷ Cwmbrian Stâd Parc Mamhilad Pontypwl NP4 0XD	01495 762462
<hr/>		
Heddlu Gwent		
Peter Keen Prif Dditectif Arolygydd	Pencadlys yr Heddlu Croesyceiliog Cwmbrian NP44 2XJ	01633 838111
<hr/>		
Carchar Ei Mawrhydi Brynbuga		
Lisette Saunders Llywodraethydd Carchar	Carchar Brynbuga 47 Stryd Maryport Brynbuga NP15 1XP	01291 671600

ATODIAD

MAPPA – y Pum Mlynedd Cyntaf:

Arolwg Cenedlaethol o Drefniadau Aml-Asiantaeth ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd 2001-2006

Cyflwyniad

Mae pum mlynedd wedi mynd heibio erbyn hyn ers gweithredu Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000 a arweiniodd at ffurfio'r Trefniadau Aml-Asiantaeth ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd, y cyfeirir ato'n gyffredinol fel MAPPA. Fel y corff strategol cenedlaethol sy'n goruchwyllo gweithrediad a datblygiad y trefniadau hyn mae'n bwysig i ni adolygu'r cynnydd a wnaed, i ddynodi'r sialensiau sy'n ein hwynebu a gosod yn eu lle gynlluniau cenedlaethol ar gyfer gwelliant. Mae hefyd yn gyfle, am y tro cyntaf, i ddarparu sylwebaeth genedlaethol ar ystadegau blynyddol MAPPA ac egluro yr hyn a ddywedant wrthym am dwf a chymhlethdod y trefniadau hyn.

Mae llawer wedi ei gyflawni yn nhermau gwella diogelwch y cyhoedd yn y 5 mlynedd diwethaf ac mae'r disgrifiad o'r trefniadau fel rhai sy'n arwain y byd yn gywir. Eto rydym yn boenus o ymwybodol bod nifer o adolygiadau achosion difrifol ac adroddiadau eraill a gyhoeddwyd eleni'n dangos bod llawer eto i'w wneud i sicrhau bod y trefniadau'n ateb y gofyn ac yn gyson eu cymhwysiad ar draws Cymru a Lloegr. Oni bai bod y rhai sy'n gweithredu'r trefniadau hyn yn sicrhau bod pob cam rhesymol yn cael ei weithredu i leihau niwed a achosir gan droseddwy'r rhywiol a threisgar, byddant wedi methu. Er ein bod yn cydnabod nad yw byth yn bosibl i ddileu risg yn gyfan gwbl mae hawl gan y cyhoedd i ddisgwyl i'r awdurdodau wneud eu gwaith yn iawn. Gwneud ein cymunedau'n ddiogelach a lleihau ail-droseddu yw ein prif flaenoriaeth ac un o'r sialensiau mwyaf sy'n wynebu asiantaethau a'r staff sy'n cymryd rhan.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r asiantaethau sy'n gyfrifol am sefydlu, cynnal neu gyfrannu at y trefniadau hyn ar gyfer diogelu'r cyhoedd wedi bod yn hynod brysur: y gwasanaeth prawf, y gwasanaeth carchardai, y gwasanaeth heddlu sy'n ffurfio'r Awdurdod Gyfrifol ym mhob ardal, ynghyd ag amrediad o asiantaethau sydd â dyletswydd i gydweithredu yn y trefniadau hyn gan gynnwys iechyd, tai, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, timau troseddu ieuencid, Canolfan Byd Gwaith a gwasanaethau monitro electronig.

Yn ychwanegol at yr asiantaethau, mae pob ardal eleni wedi elwa o gyfraniad cynghorwyr lleyg. Pobl sy'n cael eu recriwtio'n lleol yw'r rhain ond a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol i gynnig cefnogaeth allweddol i reolaeth strategol y broses MAPPA. Yn ei hanfod, eu rôl yw gofyn yr hyn sy'n aml yn gwestiynau sylfaenol i uwch-ymarferwyr a dod â phersbectif cymunedol i broses a allai fel arall golli golwg ar ei brif swyddogaeth: sef amddiffyn aelodau o'r cyhoedd rhag niwed difrifol. Gyda'i gilydd, mae pob un sy'n cyfrannu at MAPPA wedi sicrhau bod mwy o droseddwy'r treisgar risg uchel wedi eu dynodi a'u rheoli mewn dull rhagweithiol eleni nag erioed o'r blaen.

Ystadegau Cenedlaethol MAPPA

Wrth i faint a chymhlethdod MAPPA gynyddu felly hefyd y mae dadansoddiad o ystadegau'r adroddiad blynyddol wedi dod yn fwy pwysig wrth ddeall datblygiadau lleol a chenedlaethol y trefniadau hyn. Mae'r dadansoddiad cenedlaethol a gynigir isod, seiliedig ar adroddiadau o'r ardaloedd, yn dangos nifer o dueddiadau pwysig, yn arbennig mewn perthynas â maint yr atgyfeiriadau i reolaeth aml-asiantaeth ar Lefel 2 a Lefel 3 (MAPPP), a chanlyniadau'r rheolaeth hynny. Cyhoeddir adroddiadau blynyddol ardaloedd unigol MAPPA mewn man arall yn yr adran hon a dylid cyfeirio atynt am esboniad lleol manwl.

Troseddwy'r MAPPA

Fel y rhagwelwyd, eleni, cynyddodd y nifer o droseddwy'r yn y gymuned sy'n dod o fewn cylch gwaith MAPPA, er bod cyfradd y cynnydd wedi arafu ers llynedd (13% i 7%) - gweler Tabl 1. Gall fod nifer o ffactorau wedi cyfrannu at yr arafu yma. Yn gyntaf, mae'r cynnydd yn y nifer o droseddwy'r rhyw cofrestredig lawer yn llai nag mewn blynyddoedd blaenorol ar ychydig dros 3%; yn ail, atgyfeiriwyd llai na'r disgwyl o droseddwy'r i MAPPA o dan Gategori 3. (Troseddwy'r yw'r rhain nad ydynt wedi eu cofrestru fel troseddwy'r rhyw nac ar hyn o bryd yn cael eu

goruchwylio gan y gwasanaeth prawf/tîm troseddau ieuencid ond â chanddynt hanes o drais corfforol neu rywiol a'r Awdurdod Cyfrifol o'r farn eu bod ar y pryd mewn perygl o greu niwed difrifol i'r cyhoedd). Nid yw'r rheswm dros yr amrywiadau hyn, o'u cymharu â'r disgwyliadau, yn glir, ond gall mai'r nifer o ardaloedd llynedd (2004/05) a ymgorfforodd droseddwr oedd yn dal yn y carchar sy'n rhannol gyfrifol am yr amrywiadau mewn Troseddwr Rhyw Cofrestredig, a hefyd y newidiadau oedd yn dal i gael eu gwneud gan rai ardaloedd i weithdrefnau atgyfeirio a throthwyon rheolaeth risg. Troseddwr Rhyw Cofrestredig sy'n dal i ffurfio'r categori mwyaf o ddigon – gweler Siart 1


Tabl.1 Cyfanswm Troseddwr MAPPA yn y Gymuned yn ôl Categori (% Newid)

Categori	2002/03	2003/04	2004/05	2005/06
1. Troseddwr Rhyw Cofrestredig	21513	24572 14.22%	28994 18%	29973 3.38%
2. Troseddwr treisgar a throseddwr rhyw eraill	29594	12754* -56.9%	12662 -0.72%	14317 13.07%
3. Troseddwr eraill	1802	2166 20.2%	2936 35.55%	3363 14.54%
Cyfansymiau	52909	39492 -25.36%	44592 12.91%	47653 6.86%

* Yn 2003/4 newidiodd y meini prawf ar gyfer troseddwr Treisgar (Categori 2) i eithrio'r troseddwr hynny oedd yn y ddalfa.

Siart. 1 Cyfanswm Troseddwr MAPPA yn y Gymuned 2005/06

Troseddwr MAPPA yn ôl Categori 2005/06



Troseddwy Rhyw Cofrestredig


Eleni, am y tro cyntaf, mae adroddiadau blynyddol MAPPA'n cynnwys dadansoddiad o gyfanswm poblogaeth Troseddwy Rhyw Cofrestredig ym mhob un o'r unedau plismona sylfaenol o fewn pob ardal (gweler adroddiadau unigol yr ardaloedd). Mae hyn, ynghyd â dwysedd Troseddwy Rhyw Cofrestredig fesul 100,000 y pen o'r boblogaeth, sy'n amrywio o 36/100,000 i 81/100,000 ar draws 42 Ardal yng Nghymru a Lloegr, yn dangos dosbarthiad amrywiol Troseddwy Rhyw Cofrestredig o fewn y gymuned. Nid oes unrhyw eglurhad amlwg na syml dros ddosbarthiad Troseddwy Rhyw Cofrestredig, nad ydyw, fodd bynnag, yn arwyddocaol iawn yn ystadegol.

Lefelau rheoli MAPPA

Mae'n bwysig cofio nad yw y mwyafrif o droseddwy o fewn MAPPA yn achosi risg sylweddol o niwed difrifol i'r cyhoedd a gallant felly gael eu rheoli'n addas trwy drefniadau goruchwylio normal a ddarperir gan y gwasanaeth prawf, timau troseddu ieuentid a chofrestriad troseddwy rhyw yr heddlu. Disgrifir hyn fel rheolaeth lefel 1 ac mae'n cyfrif am tua 71% o boblogaeth MAPPA. Fodd bynnag, mae troseddwy â risg uchel a chymhleth o achosi niwed difrifol yn gofyn am reolaeth weithgar gan fwy nag un asiantaeth; i'r rhain mae atgyfeiriad i gyfarfodydd Lefel 2 neu Lefel 3 (MAPPP) yn hanfodol. Fel arfer bydd achos yn gymwys ar gyfer rheolaeth lefel 3 yn unig lle mae ymyriad uwch-gynrychiolwyr asiantaeth yn ofynnol i roi'r cynllun rheoli risg ar waith gyda'r awdurdod i ryddhau neu flaenoriaethu adnoddau eithriadol. Mae Siart 2 yn dangos dadansoddiad o lefelau rheoli eleni.

Siart 2 Troseddwy MAPPA yn ôl Lefel Rheoli

Cyfanswm nifer Troseddwy Rhyw yn ôl Lefel 2005/06



Dyma'r ail flwyddyn lle mae Lefel 2 a Lefel 3 cronfa ddata (MAPPP) wedi bod ar gael ac mae Tabl 2 a 3 yn dangos y nifer o droseddwy sydd yn awr yn cael eu rheoli gan reolaeth risg gyd-weithredol/aml-asiantaeth (29% o gyfanswm MAPPA). Ar gyfer pob un o'r 13,783 troseddwr yma bydd yn ofynnol i asiantaethau gwrdd yn aml a dwyn gweithredoedd yn eu blaen a fydd yn lleihau'r tebygrwydd o ail-droseddu. Mae'r tablau hefyd yn rhoi darlun mwy cyflawn o ymroddiad ac adnoddau a ddarperir gan yr Awdurdod Cyfrifol a phartner-asiantaethau eraill o fewn MAPPA. Mae Lefel 3 MAPPA, y lefel uchaf o reoli risg, yn parhau i ganolbwyntio ar y troseddwy mwyaf cymhleth, y cyfeirir atynt weithiau fel yr 'ychydig critigol' sy'n gofyn am ymgyfraniad uwch-reolwyr o fewn pobl ardal.

Mae'r defnydd o Lefel 3 MAPPP wedi ei fireinio dros y 3 blynedd diwethaf fel rhan o ymdrech gydunol i sicrhau bod adnoddau'n canolbwyntio ar y manau lle gallant wella diogelwch y cyhoedd yn fwyaf effeithiol. Eleni maent wedi cael eu defnyddio mewn llai na 3% o holl faich achosion MAPPA. Ar yr un pryd, mae cyfarfodydd rheoli risg Lefel 2, a gynhelir yn lleol, wedi cynyddu mewn nifer (12,505) gan ddod yn ystafell injan i MAPPA. Er bod elfen o ffocws ar lefel 3, mae pob Ardal wedi cydnabod yr angen i sicrhau rheolaeth ddigonol a chefnogaeth weinyddol ar gyfer Lefel 2; adlewyrchir hyn mewn Cynlluniau Busnes.

Tabl 2. Dadansoddiad o Droseddwy'r MAPPA Lefel 2 a Lefel 3 ar gyfer 2005/6

Categori Troseddwr	Lefel 2 (% o Gyfanswm MAPPA)	Lefel 3 (% of o Gyfanswm MAPPA)	Cyfanswm ym mhob Categori (% o Gyfanswm MAPPA)
1. Troseddwy'r Rhyw Cofrestredig	6014 12.62%	580 1.22%	6594 13.84%
2. Troseddwy'r treisgar a throseddwy'r rhyw eraill	4280 8.98%	506 1.06%	4786 10.04%
3. Troseddwy'r eraill	2211 4.64%	192 0.4%	2403 5.04%
Cyfanswm ym mhob Lefel	12505 26.24%	1278 2.68%	13783 28.92%

Tabl 3. Troseddwy'r a atgyfeiriwyd Lefelau 2 a 3 – Cymhariaeth â'r flwyddyn ddiwethaf (% newid)

Categori Troseddwr MAPPA	Lefel 2		Lefel 3	
	2004/05	2005/06	2004/05	2005/06
1. Troseddwy'r Rhyw Cofrestredig	5381	6014 11.76%	626	580 -7.35%
2. Troseddwy'r treisgar a throseddwy'r rhyw eraill	3615	4280 18.39%	547	506 -7.49%
3. Troseddwy'r Eraill	2292	2211 -3.53%	305	192 -37.05%
Cyfanswm:	11288	12505 10.78%	1478	1278 -13.53%

Ymyriadau a Chanlyniadau

Mae gwybodaeth am raddfeydd a chategoriâu troseddwy'r yn cael ei ategu gan wybodaeth ar ymyriadau uniongyrchol a chanlyniadau ar gyfer y grŵp yma a reolir gan MAPPA (h.y. y rhai o dan Lefelau 2 a 3). Mae'r mesurau hyn yn delio â thorri trwyddedau a gorchmynion llys, a gofynion cofrestru troseddwy'r rhyw, a throseddu pellach – gweler tablau 4 a 5.

Y ffigur sy'n denu'r sylw mwyaf, heb amheuaeth, yw'r un sy'n adlewyrchu'r nifer o droseddwy'r sydd, tra'n cael eu rheoli ar lefelau 2 neu 3, yn cael eu cyhuddo o drosedd rywiol ddifrifol neu drosedd dreisgar. O'i gymharu â 2004/5, gwelodd y flwyddyn yma ostyngiad yn nifer troseddau difrifol pellach yn y boblogaeth yma o 79 (0.6%) i 61 (0.44%) o achosion eleni. Ac roedd yr effaith mwyaf yn y man y byddech yn dymuno ac yn disgwyl iddo fod – gydag achosion Lefel 3, a reolwyd yn fwy dwys. Ar yr wyneb, mae'r ffigurau'n galonogol ond dylid eu trin gyda gofal am 2 reswm. Yn gyntaf, dim ond data 2 flynedd yr ydym wedi ei gasglu; yn ail, gyda'r fath niferoedd bychan gall unrhyw newid sbarduno amrywiad canrannol camarweiniol, cwbl anghymesur. Yr hyn sy'n amlwg, fodd bynnag, yw bod y ffigur yn isel a thra bo unrhyw ail-droseddu'n fater o'r pryder mwyaf, mae'r fath gyfradd isel o ail-droseddu ymhlith y grŵp arbennig yma o droseddwy'r i'w groesawu ac mae'n cefnogi'r farn bod MAPPA'n gwneud cyfraniad gwirioneddol i reolaeth perygl mewn cymunedau.

Mae'r data sy'n berthnasol i dorri trwydded a gorchmynion llys yn gadarnhaol ac mae hyn yn adlewyrchu cynnydd mewn gweithredu ar achosion lefel 2 a 3 cyn iddynt gael y cyfle i gyflawni niwed difrifol pellach; h.y. ail-alw troseddwy'r i'r carchar. Mae darlun yr un mor galonogol yn dod i'r amlwg wrth ddarllen y data ar wahanol ddarpariaethau i droseddwy'r rhyw – gweler tabl 5. Cynyddodd y gweithredu i orfodi gofynion cofrestru troseddwy'r rhyw trwy wyladwriaeth ac euogfarnu o 30% ers y flwyddyn ddiwethaf gan effeithio ar 1295 o droseddwy'r, 4.3% o'r cyfanswm a gofrestrwyd yn y gymuned. Gwnaed defnydd sylweddol hefyd o'r amrediad o orchymynion sifil newydd ar gael o dan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 (gorchmynion atal troseddau rhywiol, gorchmynion hysbysiad, gorchmynion teithio tramor). Mae cyfanswm o 973 o orchymynion wedi eu caniatáu eleni, sef cynnydd o 446.

Tabl 4. Mesurau canlyniadau: Gweithgaredd Lefel 2 a Lefel 3 am 2005/6 (% Newid)

Categori o Droseddwy'r MAPPA	Lefel 2		Lefel 3		Cyfanswm Lefel 2 & 3	
	2004/05	2005/06	2004/05	2005/06	2004/05	2005/06
1. Torri Trwydded	1084 21.86%	1321	222 -1.35%	219	1306 17.92%	1540
2. Torri Gorchmynion	55	82 49.09%	18	22 22.22%	73	104 42.47%
3. Cyhuddo o SFO	47	50 6.38%	32	11 -65.63%	79	61 -22.78%

Tabl 5. Mesurau Canlyniadau: Arestiadau Troseddwy Rhyw Difrifol Gorchmynion Sifil Deddf Troseddau Rhywiol 2004/5 a 2005/6 (%Newid)

Gorfodi Troseddwy Rhyw Cofrestredig	Nifer Troseddwy (04/05)	Nifer Troseddwy (05/06)
1. Troseddwy Rhyw Cofrestredig a gyhuddwyd/rybuddiwyd	993	1295 30.41%
Gorchmynion Deddf Troseddwy Rhyw	Nifer Gorchmynion (04/05)	Nifer Gorchmynion (05/06)
2. Gorchmynion atal troseddau rhywiol a ddyfarnwyd	503	933 85.49%
3. Gorchmynion Hysbysiad a ddyfarnwyd	22	39 77.27%
4. Gorchmynion Teithio Tramor a ddyfarnwyd	1	1 0%
Cyfanswm Gorchmynion	526	973 84.98%

Blwyddyn o Sialensiau

Mae'r data crai a ddarparwyd yn yr ystadegau cenedlaethol yn ddefnyddiol ond o reidrwydd yn feintiol. Er mwyn cael gwell syniad o ansawdd busnes MAPPA mae angen edrych ar ffurfiau eraill o ddadansoddi ac, yn ystod cwrs y flwyddyn yma, cyhoeddwyd nifer o adroddiadau arolygu a nifer bychan o adolygiadau rheoli ar achosion penodol sydd wedi rhoi manylion am ddiffygion mewn arfer ac wedi tanlinellu llawer o ddatblygiadau cadarnhaol mewn arfer diogelu'r cyhoedd.

Mae'n hanfodol bod cynnwys y rhain, ac adolygiadau ac adroddiadau yn y dyfodol yn llunio datblygiad MAPPA trwy arweiniad canolog ac arfer lleol ac mae'n ddefnyddiol i osod allan y gwersi a ddysgwyd eleni.

Cryfhau Trefniadau Aml-Asiantaeth Diogelu'r Cyhoedd (Cyhoeddwyd ym mis Hydref 2005 ac mae ar gael ar www.homeoffice.gov.uk/rds/pubsintro1.html)

Gwnaethpwyd yr ymchwil yma gan Brifysgol De Montfort a darganfu dystiolaeth bod mwy o effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ar draws timau MAPPA yng Nghymru a Lloegr, o'i gymharu ag adolygiad cynharach o drefniadau diogelu'r cyhoedd, oedd wedi ei gynnal cyn i ddeddfwriaeth MAPPA gael ei gyflwyno yn 2001. Darganfu bod ardaloedd yn cwrdd â manylebau Arweiniad MAPPA i raddau helaeth.

Hefyd darganfu bod trefniadau wedi eu cryfhau gan gynhwysiad y Gwasanaeth Carchardai o fewn yr Awdurdod Cyfrifol a thrwy ddynodiad nifer o asiantaethau dyletswydd-i-gydweithredu (canlyniad Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003). Hwylusodd proses MAPPA gyfraniadau effeithiol gan asiantaethau fel bod cynrychiolwyr yn medru gwneud penderfyniadau gweithredol a datblygu cynlluniau rheoli risg.

Gwnaeth yr adroddiad nifer o argymhellion ar ddatblygiad polisi ac arfer sy'n cael eu dwyn ymlaen drwy ddiwygio Arweiniad MAPPA a'r broses gynllunio busnes MAPPA.

Rheoli Troseddwy Rhyw yn y Gymuned: (Cyd-arolygiad thematig gan Arolygwyr Prawf a Heddlu ei Mawrhydi a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2005 ac ar gael ar <http://inspectores.homeoffice.gov.uk/hmiprobation>)

Darganfu'r arolygiad yma bod heddlu a phrawf yn canolbwyntio mwy ar wella asesiad a rheolaeth troseddwr risg uchel a gynigiai debygrwydd o well perfformiad. Fodd bynnag nodwyd nifer o ddiffygion mewn perthynas â chofnodion rheoli achos MAPPA; ymweliadau heddlu â chartrefi ar gyfer troseddwr rhyw cofrestredig a hyfforddiant i heddlu a phrawf ar asesiad a rheolaeth risg o niwed.

Aethpwyd i'r afael â'r diffygion yma trwy strategaeth Gwella Risg o Niwed Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwr a datblygu'r cyhoeddiad Llawlyfr Diogelu'r Cyhoedd yr Heddlu.

Arolygiad Annibynnol o achos Trosedd Ddifrifol bellach: Damien Hanson ac Elliot White a gyhoeddwyd yn Chwefror 2006 ac sydd ar gael ar <http://inspectrates.homeoffice.gov.uk/hmiprobation>

Adroddiad Arolygwyr Prawf Ei Mawrhydi oedd hwn ar Iofruddiaeth John Monckton, ac ymgais dau ddyn o dan oruchwyliaeth Ardal Prawf Llundain i Iofruddio ei wraig Homeyra ym mis Tachwedd 2004. Dynododd yr adroddiad fethiannau cyffredinol a rhai diffygion penodol yn y ffordd y rheolwyd y ddau achos.

Er na chafodd yr un o'r ddau droseddwr eu hatgyfeirio i MAPPA, dylid bod wedi atgyfeirio Damien Hanson, a gafodd ei asesu fel un oedd mewn perygl o achosi niwed difrifol. Mae'n bwysig nodi bod yr adroddiad wedi sefydlu nifer o egwyddorion yn erbyn yr hwn y bydd rheolaeth achos yn y dyfodol o fewn MAPPA a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn cael ei farnu. Prif elfen yn hyn o beth yw y bydd hawl gan y cyhoedd i ddisgwyl i'r awdurdodau wneud eu gwaith yn iawn h.y. i gymryd pob cam rhesymol i ostwng risg i'r lefel isaf posibl.

Mewn ymateb i'r adroddiad yma, mae cynllun gweithredol wedi ei gyflwyno i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i sicrhau cyflawniad gweithrediad effeithiol o'r pum 'prif' argymhelliad yn yr adroddiad a 31 o argymhellion arfer.

Adolygiad Annibynnol o achos Troseddol Difrifol Pellach: Anthony Rice a gyhoeddwyd ym Mai 2006 ac sydd ar gael ar <http://inspectrates.homeoffice.gov.uk/hmiprobation>

Cwblhawyd yr adroddiad yma yn dilyn Iofruddiaeth Naomi Bryant ym mis Awst 2005. Gwnaethpwyd cais am yr adolygiad annibynnol gan yr Awdurdod Cyfrifol i MAPPA yn Hampshire oedd yn gofidio am y nifer o faterion oedd wedi cyfrannu at fethiant y rheolaeth risg.

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion prif ddarganfyddiadau ac argymhellion ar gyfer amrediad o asiantaethau o fewn a thu allan i MAPPA, ac mae pob un ohonynt yn cael eu dwyn ymlaen. Pwysig nodi iddo ddarganfod nad oedd methiant i reoli perygl y troseddwr i achosi niwed i'r cyhoedd wedi digwydd oherwydd unrhyw weithred sengl o esgeulustod na diffyg. Yn hytrach methiant cronus ydoedd o brosesau a gweithredoedd trwy gydol holl oruchwyliaeth ei ddedfryd, yn y carchar yn ogystal ag yn y gymuned. Mae'n hollbwysig bod y pwynt yma'n cael ei ddeall ac mae'n atgyfnerthu pwysigrwydd cael system reoli troseddwr integredig o ddechrau i ddiwedd y ddedfryd gydag arfer clir a chyson rhwng tri asiant craidd MAPPA, carchardai, prawf a'r heddlu.

Roedd y prif argymhelliad i MAPPA yn ymwneud â chynnal gwell cydbwysedd rhwng hawliau dynol troseddwr a diogelu'r cyhoedd, a gwneud defnydd iawn o arweiniad cyfredol MAPPA. Mae gwaith eisoes ar y gweill i ddiwygio a chryfhau arweiniad cenedlaethol a gwella sylfaen MAPPA trwy gyfrwng y cynlluniau busnes cenedlaethol ac Ardal MAPPA.

Cyd-adroddiad Arolygiaeth Thematig Heddlu/Prawf/Carchardai: Putting Risk of Harm Into Context – a gyhoeddwyd ym Medi 2006 ac sydd ar gael ar <http://inspectrates.homeoffice.gov.uk/hmiprobation>

Darganfu'r adroddiad yma bod llawer wedi ei gyflawni, yn cynnwys bod ymyriadau cynlluniedig fel arfer yn effeithiol ar gyfer atal ymddygiad troseddol. Roedd yna hefyd le i wella mewn llawer maes ac mae'r adroddiad yn gwneud argymhellion ar gyfer defnydd mwy cyson o MAPPA a rhannu arfer da MAPPA, gwelliant mewn asesiadau perygl o niwed a chynllunio dedfrydau a mwy o ymwybyddiaeth o'r dioddefwr

Pwysig nodi bod y gwaith maes i gefnogi'r arolygiad wedi gorffen yn hydref 2005, cyn i gynllun Gweithredu Gwella Risg o Niwed gael ei lansio a gweithrediadau eraill y cyfeirir atynt yn yr arolwg yma. Er hynny, cafodd yr adroddiad groeso a chaiff ei ystyried yn fwy manwl gan Fwrdd Gwella Perygl o Niwed Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy yn ogystal â Grwp Llywio Cenedlaethol yr Awdurdod Cyfrifol.

Gweithrediadau ar gyfer datblygu MAPPA

Mae gwneud newidiadau i'r trefniadau diogelu'r cyhoedd yma'n gofyn am weithredu cydunol gan amrediad o asiantaethau a phrif fudd-ddeiliaid. Nid asiantaeth yw MAPPA ond set o drefniadau cenedlaethol sy'n gofyn i bob cyfrannydd sicrhau bod arfer eu hasiantaeth hwy eu hunain yn ateb y galw a bod natur eu cydweithrediad yn effeithiol ar gyfer asesu a rheoli'r perygl o du troseddwy rhywiol a threisgar.

Mae'n bwysig nodi bod MAPPA wedi elwa'n sylweddol eleni o'r gwaith a wnaethpwyd gan asiantaethau unigol; gwaith sy'n uniongyrchol berthnasol i sut y mae troseddwy peryglus yn cael eu hasesu a'u rheoli. Mae hyn yn cynnwys y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd OASys a weithredwyd o fis Gorffennaf 2005; gweithrediad model rheoli troseddwy o Ebrill 2006; lansiad pecyn adnoddau ac Arweiniad a Hyfforddiant Risg o Niwed Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy Mehefin 2006, a'r cynllun i gyflwyno Llawlyfr Diogelu'r Cyhoedd yr Heddlu.

Bydd MAPPA'n elwa fwyfwy o ehangiad VISOR (Cofrestr Troseddwy Treisgar a Rhywiol). Mae VISOR yn rhan gyfannol o gynlluniau i gryfhau diogelwch y cyhoedd trwy well asesiad a rheolaeth risg a bydd yn darparu cefnogaeth electronig i MAPPA gan ganiatáu rhannu data effeithlon rhwng Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a Charchardai. Mae'r heddlu wedi bod yn defnyddio VISOR ers mis Ebrill 2005 a bydd y system yn cael ei rhoi ar waith o fewn carchardai a'r gwasanaeth prawf yn ystod 2006/7. Am y tro cyntaf bydd yr Awdurdodau Cyfrifol yn cydweithio ar yr un system TG i Leihau Ail-droseddu.

Cynllun Busnes Cenedlaethol MAPPA

Fel corff cydlynu cenedlaethol yr Awdurdod Cyfrifol mae Grŵp Llywio Cenedlaethol yr Awdurdod Cyfrifol wedi cael y cyfrifoldeb o arolygu MAPPA a sicrhau ei fod yn parhau i ddatblygu. I helpu i gwrdd â'r amcanion yma, ym mis Tachwedd 2005 cyhoeddwyd Cynllun Busnes Cenedlaethol MAPPA tair blynedd 2005-8 gan Grŵp Llywio Cenedlaethol yr Awdurdod Cyfrifol. Adnebydd y cynllun bedwar o fras feysydd MAPPA lle mae angen gwelliant arwyddocaol a chyson. Mae'r rhain yn cynnwys:

Strategaeth Datblygu MAPPA

- Cyflawni gallu cydlynu a gweinyddu MAPPA ym mhob maes yn ystod 2006/7 (*wedi cychwyn*)
- Datblygu Grwp Llywio Cenedlaethol yr Awdurdod Cyfrifol i gynnwys cynrychiolaeth genedlaethol o asiantaethau Dyletswydd i gydweithredu (*cyflawnwyd*)
- Diwygio a chyhoeddi Arweiniad MAPPA (*erbyn Ebrill 2007 – gweler yr Arweiniad cyfredol ar: <http://www.probaton.homeoffice.gov.uk/output/page30.asp>*)

Monitro a Gwerthuso

- Ardaloedd i weithredu Cynllun Busnes MAPPA ar gyfer 2006/7 (*cyflawnwyd - gweler adroddiadau blynyddol ardal*)
- Datblygu dangosyddion perfformiad diogelu cyhoeddus amlasiantaeth (*yn mynd yn ei flaen*)
- Gwella cofnodi a cywain data (*yn mynd yn ei flaen*)
- Datblygu arweiniad ar gyfer proses adolygu achos difrifol (*bwriedir cynnal ymgynghoriad yn ddiweddarach eleni*)

Cyfathrebu â Phartneriaethau Strategol

- Cyhoeddi adroddiad blynyddol MAPPA (cyflawnwyd)
- Datblygu adroddiad blynyddol i wella dealltwriaeth a diddordeb y cyhoedd (*yn mynd yn ei flaen*)
- Cynhadledd genedlaethol MAPPA (cyflawnwyd – *Tachwedd 2005*)
- Datblygu strategaeth gyfathrebu genedlaethol (*cyhoeddwyd ym mis Mehefin, ond gallai Adolygiad Troseddau Rhywiol yn erbyn Plant ychwanegu impetws pellach*).

Hyfforddiant

- Cyflwyno hyfforddiant cenedlaethol i gynghorwyr lleyg (*cyflwynwyd ond hefyd yn dal i ddatblygu*)
- Cynhadledd cydlynwyr cenedlaethol (*cyflwynwyd – Mai 2006*)
- Cywain deunydd hyfforddiant craidd (*wedi cychwyn*)
- Meysydd ar gyfer gweithredu strategaeth hyfforddi i ymarferwyr newydd, aelodau newydd o'r bwrdd rheoli strategol ac ar gyfer cydlynwyr a gweinyddwyr (*wedi cychwyn*)

Gofynnwyd i ardaloedd gynhyrchu adroddiadau blynyddol ar y model yma ac am y tro cyntaf, wele ynghlwm wrth adroddiadau blynyddol ardal, gynlluniau busnes. Bydd adroddiadau yn y dyfodol yn cofnodi'r cynnydd a gyflawnwyd.

Casgliad

Mae cyflwyniad MAPPA'n galluogi asiantaethau i gydweithio'n agosach nag erioed wrth gyfnewid gwybodaeth a rheoli troseddwyd ar y cyd, gan sicrhau bod troseddwyd a allai fod yn beryglus yn cael eu hasesu'n gywir o safbwynt risg a'u rheoli'n rymus yn y gymuned.

Mae rheolaeth effeithiol o droseddwyd risg uchel, fel maes astudiaeth, yn dal yn gymharol ifanc. Mae yna ddatblygiad parhaus ac mae safonau ac arfer da yfory, a gânt eu gwireddu trwy brofiad ac ymchwil, yn debygol o fod yn wahanol i'r rhai presennol. Yr her felly yw, nid yn unig i sicrhau bod arfer cyfredol yn cyfateb i'r hyn yr ydym yn ei wybod, ond hefyd i ymateb yn gyflym i'r dysgu newydd.

Mae'r Arolygiaeth yn awgrymu'n adeiladol mai fel proses o ddynodi cyfnodau mewn siwrnai y gellid deall yn well yr hyn y maent yn ei ddisgrifio yn hytrach na thaith sydd wedi ei chwblhau. Ers iddynt gael eu cyflwyno yn 2001, mae'r 42 MAPPA yng Nghymru a Lloegr wedi teithio ymhell mewn amser byr i sefydlu trefniadau newydd. Mae gwaith hanfodol MAPPA ar ddiogelu'r cyhoedd yn cael ei wneud gan staff sgilgar ac ymroddedig ac mae pawb sy'n ymwneud â'r trefniadau'n cydnabod yr angen am wylidwriaeth gyson a gwelliant. Nid yw'r siwrnai'n un hawdd, ond mae cymunedau'n ddiogelach oherwydd, fel y dangosir yn yr adroddiad yma, mae'r Awdurdodau Cyfrifol yn cyd-deithio i'r cyfeiriad cywir.

John Scott

Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaeth Rheoli Troseddwyd Cenedlaethol Uned Rhyddhau Drwyddedig

Terence Grange

Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys ac yn gyfrifol am Diogelu'r Cyhoedd Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu

Tony Robson

Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi

Ar ran Grŵp Llywio Cenedlaethol yr Awdurdod Cyfrifol